

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

GORSAF NIWCLEAR NEWYDD YN WYLFA

Eisoes yn safle i orsaf bŵer, mae Wylfa'n lleoliad delfrydol ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear carbon isel newydd.



Yn 2009, cafodd Wylfa ei enwebu'n rhan o Asesiad Lleoli Strategol Llywodraeth y DU fel safle all fod yn addas ar gyfer lleoli gorsaf bŵer niwclear newydd erbyn diwedd 2025. Ynghyd a naw safle arall, yn cynnwys safle Horizon yn Oldbury, cafodd Wylfa ei gynnwys yn y Datganiad Polisi Niwclear Cenedlaethol drafft a fydd yn cael ei gadarnhau yn 2011.

Rydym yn credu bod Wylfa'n lleoliad ardderchog ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. Eisoes mae digon o le yno ar gyfer y datblygiad, ynghyd a chysylltiad i'r Grid Cenedlaethol a sylfeini craig caled. Mae'n ddigon uchel uwchben lefel y môr i osgoi perygl difrifol o lifogydd ac mae dŵr môr ar gael yno at ddibenion oeri dŵr.

Mae etifeddiaeth niwclear Wylfa ac Ynys Môn hefyd wedi creu cronfa gref o sgiliau a gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae cadw a datblygu'r arbenigedd lleol hwn yn bwysig iawn i ni.


Mae'r gwahanol rannau o'n cynigion yn debygol o gynnwys:

- gorsaf bŵer yn cynnwys adweithyddion niwclear gyda gallu cynhyrchu cyfunol o hyd at 3.3 GW;
- cyfleuster dadlwytho morol;
- twneli derbyn a gollwng dŵr;
- seilwaith trawsgludo trydan;
- adeiladau perthnasol eraill fel swyddfeydd gweinyddol;
- cyfleusterau storio gwastraff dros dro;
- ffyrdd mynediad; a
- mesurau a mentrau i reoli unrhyw effeithiau yn ystod adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer newydd.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

YNGLŶN Â SAFLE WYLFA

Tir enwebedig, perchnogaeth a gweithgaredd presennol.



Mae'r map uchod yn dangos yr ardal o dir a gafodd ei enwebu yn 2009 yn rhan o broses Asesiad Lleoli Strategol y Llywodraeth ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd posib.

Mae'r safle arfaethedig o 232 hectar yn amgylchynu gorsaf bŵer niwclear presennol Magnox North yn Wylfa A.

Rydym eisoes wedi cynnal rhywfaint o waith cychwynnol archwilio tir yn 2009 ac mae mwy ar y gweill ar gyfer y gaeaf hwn ar dir ger safle'r datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys drilio tyllau turio ar Benrhyn Wylfa ac yn y môr er mwyn gweld pa mor ymarferol fydd adeiladu twneli derbyn/gollwng dŵr o dan ddaear.

Rydym hefyd yn ystyried datblygu cyfleuster dadlwytho morol oddi ar yr arfordir. O'r opsiynau sy'n cael eu hystyried, mae'n ymddangos mai Porth yr Ogof yw'r un mwyaf addas. Byddai hyn yn caniatáu cludo a dadlwytho offer adeiladu a rhai o'r darnau gwaith mawr ar y môr, gan leihau traffig ffordd a rheilffordd yn sylweddol.

Am resymau diogelwch fodd bynnag, bydd angen rhai cyfyngiadau ar fynediad i'r ardal yn ystod y cyfnod adeiladu.

Pa bynnag waith datblygu ac archwilio cysylltiedig fydd yn digwydd ar neu o gwmpas y safle arfaethedig, rydym yn ymrwymedig i leihau unrhyw effeithiau a chynnal mynediad i'r cyhoedd.

Rydym yn gwybod bod gan rai pobl bryderon am gyflwr adeiladau gwag o fewn y safle enwebedig. Rydym yn gweithio gyda EDF, perchennog nifer o adeiladau o fewn y safle enwebedig, i benderfynu ar eu dyfodol a delio gydag unrhyw broblemau sy'n bodoli. Mae amryw o arolygon tir eisoes wedi eu cynnal i weld pa adeiladau fydd angen gwaith, er bod arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd angen diddymu nifer ohonynt.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

LLETYA GWEITHWYR YN WYLFA YN YSTOD Y CYFNOD ADEILADU

Mae sicrhau bod llety iawn ar gyfer y rhai sy'n rhan o adeiladu gorsaf bŵer newydd yn Wylfa yn flaenoriaeth i Horizon.



Mae adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn fenter sylweddol, sydd angen deng mlynedd i'w gwblhau. Bydd prosiect o'r maint hwn hefyd eisiau gweithlu medrus iawn o hyd at 5,000 yn ystod y prif gyfnod adeiladu yn 2016 a 2017.

Bydd adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn dod a chryn fuddsoddiad a chyfluoedd am swyddi a'n nod ni yw cadw a darparu hyfforddiant ar gyfer y gweithlu lleol. Fodd bynnag, er mwyn gwarantu'r holl sgiliau fydd eu hangen yn Wylfa yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu, mae'n anochel y bydd yn rhaid i rai gweithwyr ddod o bell ac mae angen i ni gynllunio ble y gallant aros a deall yr effaith y gall hyn ei gael.

Mae'n debygol y bydd angen amryw o atebion, yn cynnwys:

- campws llety annibynnol mawr naill ai ar neu oddi ar y safle datblygu;
- defnyddio peth llety sy'n bodoli eisoes, gwestai a Gwely a Brecwast yn ogystal â charafanau sefydlog;
- datblygu amryw o wersylloedd neu feysydd carafanau llai mewn gwahanol leoliadau.

Mae Horizon yn cynnal sawl astudiaeth yn cynnwys Asesu'r Effaith ar Iechyd i sicrhau nad yw gweithwyr ychwanegol yn effeithio ar y gwasanaethau iechyd presennol, ac astudiaethau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i asesu'r effaith ar agweddau fel yr Iaith Gymraeg.

Mae'r posibilrwydd o etifeddiaeth gadarnhaol hefyd yn ystyriaeth bwysig. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i asesu sut y gellir rheoli cyfleusterau llety newydd a sut y gall eu defnydd fod o fudd i gymunedau yn y dyfodol.

Yn ogystal â'n hastudiaethau ein hunain, byddem yn croesawu eich barn a fydd yn gymorth i ni greu cynllun sy'n gweithio i'r gymuned. Er enghraifft:

- sut a ble 'rydych yn credu y dylai llety'r gweithwyr fod?
- sut all ein cynlluniau gefnogi, a pheidio â difrio, twristiaeth yn lleol?
- beth fydd angen i ni ei ystyried o ran trafndiaeth, adnoddau lleol a diogelwch o gwmpas unrhyw leoliadau llety newydd?

I roi gwybod i ni, a fydddech cystal â:

- Cwblhau ffurflen ymateb yn un o'n harddangosfeydd;
- Cysylltu â ni ar **0800 954 9516**; neu
- Anfon e-bost at wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

DARPARU BUDDIANNAU TYMOR HIR YN WYLFA

Mae Pŵer Niwclear Horizon eisiau sicrhau y bydd gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa yn creu etifeddiaeth gadarnhaol i genedlaethau yn awr ac yn y dyfodol.



Mae datblygu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa yn fenter sylweddol ac yn un fydd yn creu etifeddiaeth barhaus i dros dair cenhedlaeth ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru. O'i adeiladu i'w ddatgomiynu, bydd y prosiect cyfan yn parhau am dros 90 mlynedd. Mae'n hanfodol ein bod yn manteisio ar gyfleoedd ac yn darparu buddiannau i hynny o bobl ag sy'n rhesymol bosib.

Yn Wylfa rydym eisiau:

- helpu i greu cyfleoedd addysg a hyfforddiant tymor hir a datblygu gweithlu medrus ar Ynys Môn;
- helpu i sefydlu cadwyn gyflenwi o safon fyd-eang;
- gwella'r seilwaith ffyrdd ble bo angen gwneud hynny;
- gweithio gydag a helpu i ddatblygu rhaglen Ynys Ynni Cyngor Sir Ynys Môn;
- adeiladu canolfan ymwelwyr ac addysg newydd; a
- sicrhau bod y galw am nwyddau, gwasanaethau a gweithwyr o fudd i'r economi leol

Rydym yn gweithio'n agos gyda chymunedau lleol a Chyngor Sir Ynys Môn i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hystyried yn llawn yn ein cynlluniau ar gyfer gorsaf niwclear newydd a'n bod yn cyflawni'r canlyniad gorau posib.

Os oes gan bobl ddiddordeb mewn cyfleoedd am waith, twristiaeth, y seilwaith trafnidiaeth neu unrhyw effaith posib arall, rydym yn awyddus i glywed eich barn ac ateb eich cwestiynau.

Bydd ein digwyddiadau ymgynghori cynllunio yn 2011 yn rhoi cyfleoedd pellach i gymunedau ac unigolion lleol roi adborth ar ein cynigion. Fodd bynnag, fe hoffem glywed gennych heddiw hefyd. Os oes gennych unrhyw syniadau, cwestiynau neu sylwadau cysylltwch â ni ar **wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com** neu ar ein rhif rhadffôn **0800 954 9516**.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

O YMRWYMIAD I YMGYNGHORIAD – EICH CYFLE I SIAPIO EIN CYNLLUNIAU

Rydym wedi bod yn ymrwymo'n weithredol gyda chymunedau ar Ynys Môn ers 2009. Bydd y gweithgaredd hwn yn parhau yn 2011, pan fyddwn hefyd yn dechrau ymgynghoriad swyddogol ar ein cynigion cyn ymgeisio.



Mae newidiadau diweddar i system gynllunio'r DU yn golygu y bydd unrhyw gais am orsaf bŵer niwclear newydd yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith*. Mae hwn yn gorff annibynnol yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau am brosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd.

Mae'r system gynllunio newydd yn gosod pwyslais mawr ar yr angen swyddogol am ymgynghoriad cymunedol. Mae'n argymhell y dylai cymunedau lleol allu – ble'n bosib – dylanwadu ar ddatblygiad prosiect ac y dylid defnyddio eu barn i siapio'r cynigion terfynol.

Mae Horizon yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol perthnasol – Cyngor Sir Ynys Môn yn bennaf – i gytuno ar 'Ddatganiad o Ymgynghoriad Cymunedol'. Bydd hwn yn nodi sut y byddwn yn ymgynghori'n swyddogol ar ein cynigion ar gyfer gorsaf bŵer newydd yn Wylfa.

Yn 2011 bydd ein Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol yn cael ei gyhoeddi i'r cyfryngau lleol, yn cael ei ddisbarthu i lyfrgelloedd ac adnoddau cymunedol eraill a bydd ar gael i'w lawr lwytho o'n gwefan www.horizonnuclearpower.com.

Bydd manylion penodol fel amseroedd, lleoliadau digwyddiadau, cwestiynau yr ydym yn eu holi ayb, ar gael cyn bob cam o'r gweithgaredd ymgynghori.

Bydd ein cais am brif ddatblygiad y safle niwclear yn cael ei ystyried gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, ond bydd elfennau eraill sy'n angenrheidiol i ddarparu gorsaf bŵer niwclear newydd – datblygiad cysylltiedig – yn cael eu hystyried gan gyrff eraill. Er enghraifft, yng Nghymru, mae ceisiadau am greu cyfleuster dadlwytho morol yn y môr yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bydd datblygiadau ar y tir fel gwelliannau ffyrdd yn mynd at Gyngor Sir Ynys Môn.

Rydym eisiau clywed eich adborth ar ein cynlluniau am orsaf bŵer newydd yn Wylfa ac fe hoffem eich annog i anfon eich sylwadau atom unrhyw bryd. Gallwch gysylltu â ni ar **0800 954 9516** neu ar wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com. Byddem hefyd yn eich annog i gwblhau un o'n ffurflenni adborth yn yr arddangosfa gyhoeddus.

* Yn dilyn newid y Llywodraeth ym Mai 2010, bydd yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr yn cymryd lle'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn y pen draw. Mae ei gyloch gwaith yn gyffredinol yn debyg, er y bydd ceisiadau yn awr yn cael eu cymryd gan yr Ysgrifennydd perthnasol Gwladol.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

BETH SYDD WEDI BOD YN DIGWYDD YN WYLFA YN 2010?

Mae datblygu gorsaf bŵer newydd yn broses hir a chymhleth - hyd yn oed cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.



Trwy gydol 2010, mae Pŵer Niwclear Horizon wedi bod yn cynnal amrywiaeth o astudiaethau manwl i asesu effeithiau ymarferol adeiladu gwaith newydd yn Wylfa a'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig posib yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu yn y dyfodol.

Astudiaethau datblygu safle

Bydd gwaith pŵer niwclear newydd yn golygu amryw o oblygiadau i Ynys Môn a Gogledd Cymru, ac mae'n ddyletswydd arnom ni i ddeall beth yw'r rhain a sut y byddant yn effeithio ar gymunedau a phreswylwyr lleol. Yn 2010, mae ein hastudiaethau datblygu safle wedi ymdrin â sawl maes, yn cynnwys asesu opsiynau cludiant, o ble y gellir tynnu'r gweithlu, a'r opsiynau posib ar gyfer Cyfleuster Dadlwytho Morol ger Wylfa. Mae pob un o'r astudiaethau hyn wedi eu cynllunio i asesu goblygiadau adeiladu a gweithredu a'n galluogi ni i ganfod datrysiadau. Gallwn wedyn ymgynghori ar y cynlluniau hyn gyda'r gymuned ehangach.

Archwiliadau tir ac astudiaethau amgylcheddol

Mae datblygu dadansoddiad cynhwysfawr o'r amodau tir o amgylch Wylfa wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer ein hastudiaethau cynnar. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i addysgu cynllunio, lleoli ac adeiladu'r orsaf bŵer newydd. Mae ein hastudiaethau archwilio tir wedi cynnwys monitro dŵr daear a drilio tyllau turio ar y tir ac yn y môr. Rydym hefyd wedi cynnal nifer o archwiliadau morol ac amgylcheddol ac astudiaethau ecolegol yn canolbwyntio ar safle Wylfa a'r ardal o amgylch. Bydd y rhain yn cael eu parhau a'u hehangu yn ystod y gaeaf hwn, yn cynnwys cloddio arbrofol a drilio yn y môr. Byddant yn helpu i ganfod y lleoliad gorau i orsaf niwclear newydd a'r effeithiau amgylcheddol posib.


Cytundeb Gwaith Cynnar

Yn Awst 2010, dechreuodd gwaith asesu gan gyflenwyr adweithyddion Areva (yn cynnig yr EPR) a chonsortium a ffurfiwyd gan gwmni Westinghouse Electric Company Nuclear Delivery UK (NPDUK) (yn cynnig yr AP1000) fynd i'r afael a sut y gellir datblygu eu cynlluniau adweithydd yn Wylfa. Bydd y gwaith cynnar hwn a'r astudiaethau'n helpu Horizon i leoli ei safle ac i benderfynu ar ba gynlluniau i'w dewis ar gyfer y safle.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

TRAFFIG A CHLUDIANT

Mae sicrhau bod y seilwaith iawn yn ei le i alluogi i'r gwaith adeiladu ddechrau yn hanfodol i'n cynlluniau ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa.



Er mwyn cael defnyddiau i'r safle yn ystod y cyfnod adeiladu, yn arbennig llwythi trymion, rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r môr, rheilffyrdd a ffyrdd. Ym mhob achos mae angen i ni ddeall unrhyw effeithiau posib a pha welliannau seilwaith a all fod eu hangen.

I weithwyr, yn ystod adeiladu a gweithredu'r gwaith newydd, byddwn yn edrych ar ffyrdd i leihau faint o gerbydau sy'n teithio ac yn annog mentrau teithio gwyrdd fel parcio a theithio a chynlluniau rhannu car.

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau ein bod yn ystyried yr holl faterion perthnasol ac yn bwydo rhaglen waith Ynys Ynni.

Môr

Dod a hynny o ddefnyddiau ag sy'n bosib ar y môr yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy ac rydym yn cynllunio ar gyfer Cyfleuster Dadlwytho Morol yn agos at y safle. Mae'n hastudiaethau ni'n edrych ar yr opsiynau'n awgrymu mai Porth Yr Ogof yw'r lleoliad a ffafrir ar gyfer Cyfleuster o'r fath.

Rheilffordd

Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio rheilffordd i ddod a defnyddiau adeiladu i'r safle, yn cynnwys defnyddio'r hen lein rheilffordd o Gaerwen i Amlwch. Mae ein hastudiaethau'n awgrymu y byddai hyn yn ddruod iawn ac oni bai y gellid ymestyn y lein i'r safle yn Wylfa (a fyddai'n golygu cost ychwanegol ac yn amharu ar y seilwaith presennol) byddai'n dal angen i ni ddod a defnyddiau ar hyd y ffyrdd cul o Rosgoch neu Amlwch i Wylfa.

Ffyrdd

Mae effaith y traffig cynyddol a llwythi trwm ar y system ffyrdd yn bwysig wrth gynllunio am ddatblygiad mawr newydd. Mae ein hastudiaethau'n edrych ar faterion fel ble y gall y gweithlu fyw, sut y byddant yn teithio a sut i symud llwythi trwm ar y tir. Wrth wneud hyn, rydym wedi edrych ar y sefyllfa ar ac oddi ar yr ynys.

Rydym yn credu bod gwella'r ffordd A5025 rhwng Fali a Wylfa'n hanfodol i sicrhau adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd yn ddiogel. Rydym wedi dechrau cyfres o astudiaethau i edrych ar yr opsiynau. Rhan allweddol o hyn yw edrych ar Groesffordd y Fali, Llanfachraeth a nodi unrhyw rannau eraill o'r ffordd a all fod angen eu gwella.

Rydym yn cynnal asesiadau ar nifer o opsiynau posib a bydd hyn yn rhan bwysig o'n rhaglen ymgynghori swyddogol fydd yn dechrau yn 2011.

I'n helpu, byddem yn croesawu eich barn ar:

- pa faterion traffig a chludiant yr ydych yn credu y dylem fod yn edrych arnynt; a
- beth ydych chi'n credu yw'r ffordd orau i ddod a llwythi trymion a defnyddiau adeiladu i mewn i'r safle.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

DIOGELWCH

Mae diogelwch ac iechyd y cyhoedd a'n gweithwyr yn flaenoriaeth i Bŵer Niwclear Horizon.



Mae gan gwmnïau cyfranddalwyr E.ON a RWE dros 50 mlynedd o brofiad ym mhob agwedd o weithredu niwclear diogel, storio tanwydd sydd wedi darfod a datgomisïynu a byddwn yn dod a'r lefel hon o fanylder a gwybodaeth dechnegol i Wylfa.

Mae gweithfeydd niwclear masnachol wedi cynhyrchu ynni'n ddiogel am dros 50 mlynedd ac maent yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd. Yng Nghymru a Lloegr mae'r diwydiant niwclear yn cael ei reoleiddio'n gaeth gan yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r Arolygiaeth Safleoedd Niwclear yn sicrhau bod pob gorsaf niwclear yn cael ei hadeiladu a'i gweithredu i'r safonau uchaf ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn sicrhau bod gollyngiadau ac effeithiau amgylcheddol eraill yn cael eu rheoli'n iawn.

Nid fu digwyddiad niwclear erioed yn y DU mewn gorsaf bŵer masnachol sydd wedi creu perygl i'r cyhoedd ac mae llai na 0.1 % o'r holl ymbelydredd yr ydych yn ei dderbyn yn dod o orsafoedd pŵer niwclear.

Y Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil yw'r rheolydd diogelwch i ddiwydiant niwclear y DU ac mae'n gorfodi'r fframwaith cyfreithlon a rheoliadol cynhwysfawr sy'n bodoli i sicrhau diogelwch sefydliadau niwclear a defnyddiau niwclear sy'n cael eu cludo.


Mae'r trefniadau trylwyr hyn yn sicrhau bod gan sefydliadau niwclear yn y DU hanes ardderchog o ddiogelwch. Bydd y genhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear yn ddigon gwydn yn strwythurol i wrthsefyll amgylchiadau eithafol yn cynnwys tanau, gwrthdrawiad awyrennau a hofrenyddion a daeargrynfeydd.

Am fwy o wybodaeth am reolaeth niwclear, ewch i:
www.environment-agency.gov.uk
www.hse.gov.uk/nuclear.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

RHEOLI EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn ymroddedig i leihau effaith amgylcheddol gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu.



Fel rhan o gais am gynllunio, mae gofyn i Horizon ddarparu Asesiad o Effaith Amgylcheddol i gefnogi'r cais, sy'n canfod a nodi sut y byddwn yn rheoli unrhyw effaith y gall adeiladu, datblygiad cysylltiedig a gweithredu tymor hir eu cael ar yr amgylchedd o gwmpas. Yn Wylfa bydd ein Hasesiad o Effaith Amgylcheddol yn ymdrin â'r meysydd canlynol;

- ansawdd aer a llwch
- yr amgylchedd morol
- daeareg, hydrodaeareg a hydroleg
- perygl llifogydd
- ecoleg ddaeareol (cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir);
- tirwedd ac amwynder gweladwy;
- bywyd gwylt a rhywogaethau a warchodir;
- sŵn;
- traffig a chludiant; ac
- effeithiau cymdeithasol ac economaidd.

Trwy 2009 a 2010 mae ein hastudiaethau amgylcheddol wedi canolbwyntio'n benodol ar;

- adar;
- ystlumod;
- dyfrgwn a llygod dŵr;
- ymlusgiaid;
- amffibiaid;
- anifeiliaid di-asgwrn cefn; ac
- astudiaethau botanegol.

Bydd yr arolygon hyn yn cael eu hailadrodd yn 2011, pan fydd yr astudiaethau'n cael eu hehangu i gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd dan fygythiad yn y DU, yn cynnwys;

- y ffwlbart;
- draenogod;
- ysgyfarnog frown; a
- llygod y maes.

Cynhaliwyd rhaglen eang o archwilio morol hefyd yn 2010 a bydd yn parhau i mewn i 2011. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys;

- arolygon ansawdd dŵr;
- arolygon hydrodynamig;
- arolygon pysgodfeydd;
- benthig; ac
- arolygon adar morol.

Mae rhan o'n hastudiaethau amgylcheddol hefyd yn cynnwys drilio tyllau twrio arbrofol a thyllau prawf i sefydlu gwneuthuriad daearegol a thechnegol y tir.

Wrth i'n cynigion ddatblygu byddwn yn ymgynghori gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid statudol, yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cynigion yn gadarn ac wedi ystyried yr holl faterion posib.

GWASTRAFF A DATGOMISIYNU

Bydd storio a gwaredu tanwydd wedi darfod yn ddiogel yn rhan annatod o'r datblygiad newydd arfaethedig yn Wylfa.



Mae gan y DU gyfundrefn rheoli niwclear annibynnol cryf a chadarn a fydd yn chwarae rhan allweddol yn helpu i sicrhau gwaredu gwastraff sy'n codi o'r genhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear yn ddiogel.

Rydym wedi cytuno gyda'r Llywodraeth y byddwn ni, fel buddsoddwyr mewn gorsafoedd pŵer niwclear newydd, yn ariannu'r gost o ddatgomiynu a rheoli gwastraff newydd a grëir gan ein gorsafoedd. Mae'r Llywodraeth yn y broses o gwblhau manylion y trefniadau ariannol ar gyfer gweithredwyr niwclear newydd.

Trwy ein cwmnïau cyfranddalwyr, E.ON a RWE, mae gennym dros 50 mlynedd o brofiad yn y diwydiant niwclear, yn cynnwys profiad o ddatgomiynu gorsafoedd pŵer niwclear a thrin a storio gwastraff.

Yn Wylfa bydd angen i ni ystyried rheoli gwastraff lefel isel, gwastraff lefel canolradd a thanwydd wedi darfod.

Gwastraff lefel isel – yn cynnwys eitemau fel menig a hancesi papur labordy a fydd yn cael eu taflu ac a allant fod wedi eu halogi. Yn gyffredinol mae'n cael ei storio'n ddiogel ar y safle cyn ei waredu'n ddiogel yng nghadwrfa gwastraff lefel isel y DU yn Drigg ger Sellafield.

Gwastraff lefel canolradd – yn cynnwys offer puro a hidlo (fel ffliteri a resin cyfnwid ionau) a chydrannau adweithydd. Mae ei ymbelydredd yn uwch na gwastraff lefel isel ac mae angen iddo gael ei orchuddio, ond nid yw'n cynhyrchu lefelau arwyddocaol o wres.

Tanwydd wedi darfod – ni fydd gwastraff yn gysylltiedig ag ailbroesu (Gwastraff Lefel Uchel) yn cael ei gynhyrchu yn Wylfa, dim ond tanwydd wedi darfod. Bydd storio tanwydd wedi darfod yn ddiogel yn Wylfa'n rhan annatod o'r safle newydd arfaethedig a bydd wedi ei leoli o fewn yr ardal niwclear drwyddedig. Ni fydd yn gadael y safle nes y bydd cadwrfa ganolog yn barod i'w dderbyn.

Mae datgomiynu hefyd yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu gorsaf bŵer niwclear ac mae gan ein cyfranddalwyr brofiad uniongyrchol yn datgomiynu Adweithyddion Dŵr Gwasgeddedig (y math o dechnoleg a fydd yn cael ei defnyddio yn Wylfa).

Mae adweithyddion bellach yn cael eu cynllunio'n benodol gyda datgomiynu mewn golwg. A dweud y gwir mae technoleg Adweithyddion Dŵr Gwasgeddedig fel arfer yn cymryd rhyw 10 mlynedd i'w datgomiynu, yn hytrach na'r 50-100 mlynedd sydd ei angen i ddatgomiynu gorsaf bŵer niwclear Magnox neu AGR. Mae faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan orsafoedd pŵer niwclear newydd yn fach o'i gymharu â'r gwastraff niwclear sydd eisoes yn bodoli: mae astudiaethau a gynhaliwyd ar ran y Llywodraeth wedi amcangyfrif y byddai'r gwastraff a gynhyrchir o weithredu 10 gorsaf bŵer newydd yn y DU am 60 mlynedd, yn cynhyrchu 25% o drydan y DU, yn ychwanegu 8% at y cyfaint presennol o wastraff niwclear yn y DU*.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud ynglŷn â gwastraff ymbelydrol ar wefan y Llywodraeth, Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel ar <http://mrws.decc.gov.uk>.

* Ymgynghoriad Niwclear, s8.22-8.23 (p131/2).
<http://www.berr.gov.uk/files/file39197.pdf>

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

GWEITHIO GYDA BUSNESAU LLEOL

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn ymroddedig i gefnogi economi Gogledd Cymru a sicrhau bod busnesau lleol yn gallu manteisio ar orsaf niwclear newydd yn Wylfa.



Yn ogystal â swyddi uniongyrchol, gall datblygiad gorsaf bŵer fel yr un sydd wedi ei chynllunio ar gyfer Wylfa chwistrellu sawl miliwn o bunnau'r flwyddyn i economïau lleol trwy gyflogaeth anuniongyrchol a mwy o alw am newyddau a gwasanaethau. Mae'r gwaith adeiladu a gweithredu posib yn debygol o gymryd sawl degawd, felly bydd cyfleoedd tymor hir sylweddol ar gael.

Mae cyfres o astudiaethau economaidd-gymdeithasol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd i asesu sut i fanteisio ar y cyfle hwn a dod a'r buddiannau economaidd gorau posib i fusnesau ar draws Gogledd Cymru. Ein nod yw:

- **datblygu a diogelu cadwyni cyflawni lleol** – trwy weithio'n agos gyda busnesau a'n cyflenwr adweithydd a ffafrir a'n partner adeiladu (unwaith iddo gael ei enwi), i fanteisio ar gyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol os fydd cynlluniau'n mynd yn eu blaenau ar gyfer gorsaf newydd.
- **hybu cyflogaeth leol** – gallai gwaith newydd Pŵer Niwclear Horizon greu hyd at 800 o swyddi parhaol o ansawdd uchel, yn codi i 1,000 yn ystod cyfnodau cynnal a chadw a rhyw 5,000 yn ystod y cyfnod adeiladu. Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod cymaint â phosib o'r gweithlu medrus sydd eisoes yn Wylfa a Thrawsfynydd yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r orsaf newydd.

Sut i gymryd rhan

Mae hon yn gymuned yr ydym yn gobeithio bod yn rhan ohoni am sawl degawd i ddod, ac rydym yn awyddus i gefnogi'r economi lleol.

Os ydych yn fusnes lleol... Cysylltwch â:


suppliers@horizonnuclearpower.com neu dewch draw i un o'n digwyddiadau lleol rheolaidd. Rydym yn croesawu ac annog bob math o fusnesau a byddwn yn sicrhau bod cwmnïau sydd wedi eu cofrestru yn cael y newyddion diweddaraf am y prosiect.

Os ydych yn chwilio am swydd... Beth am fewngofnodi ar **www.horizonnuclearpower.com/careers.php** i gofrestru eich diddordeb a chwilio am swyddi gwag.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

PA DECHNOLEG NIWCLEAR FYDD YN CAEL EI DEFNYDDIO YN WYLFA?

Bydd gorsaf bŵer newydd yn Wylfa'n defnyddio'r dechnoleg niwclear fwyaf modern, effeithlon a diogel sydd ar gael.



Mae technoleg niwclear yn y DU yn cael ei reoleiddio gan yr Arolygaeth Safleoedd Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n cynnal 'Asesiad Cynllun Generig' ar y cyd i werthuso effeithiau cynlluniau adweithydd niwclear newydd ar ddiogelwch a'r amgylchedd. Mae'r asesiad i fod i gael ei gwblhau erbyn Mehefin 2011.

Y ddau gynllun sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer trwydded adweithydd yn y DU yw EPR AREVA ac AP1000 Westinghouse Electric Company. Unwaith i'r cynlluniau fodloni'r broses asesu, byddant yn cael eu hystyried ar gyfer trwydded yn unrhyw un o'r 10 safle enwebedig yn y DU fel safleoedd posib ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae'r ddau gynllun yn defnyddio technoleg Adweithydd Dŵr Gwasgeddedig i gynhyrchu ynni. Mewn adweithydd o'r fath, mae dŵr yn cael ei bwmpio dan wasgedd uchel i graidd yr adweithydd ble caiff ei gynhesu, ac mae'r stem yn troi tyrbîn stem ac yn cynhyrchu pŵer. Yna caiff ei oeri rhywfaint cyn dechrau'r broses eto.

Ar hyn o bryd mae Horizon yn gweithio gyda AREVA a NPDUK gyda'r bwriad o ddewis y dechnoleg a ffafrir yn gynnar yn 2011. Unwaith mae'r penderfyniad hwn wedi ei wneud byddwn yn dechrau ar ein hymgynghoriad swyddogol cyn ymgeisio.

Mae adweithydd EPR AREVA ar hyn o bryd yn cael ei adeiladu yn y Ffindir, Ffrainc ac mewn dau safle yn Tsieina. Mae wedi cael ei ddewis ar gyfer ei adeiladu yn Hinkley Point a Sizewell yn y DU. Mae Horizon yn trafod gyda AREVA NP, consortiwm sy'n cynnwys Areva a chwmni pŵer Siemens o'r Almaen. Am fwy o wybodaeth ewch i: www.aveva.com

Mae Nuclear Power Delivery UK yn dîm sy'n cynnwys Westinghouse Electric Company, Shaw Group, Laing O'Rourke a Toshiba, a sefydlwyd i ddod a'r adweithydd Westinghouse AP1000 i'r DU. Mae'r AP1000 yn un o ddau gynllun sy'n cael eu hasesu gan reoleiddwyr y DU ar hyn o bryd ar gyfer adeiladu niwclear newydd posib, ac mae'r gwaith AP1000 cyntaf yn y byd, yn Sanmen yn Tsieina, i fod i ddechrau cynhyrchu trydan yn 2013. Mae gweithfeydd eraill yn cael eu datblygu yn Georgia yn yr UDA. Am fwy o wybodaeth ewch i: www.nuclearpowerdeliveryuk.com.

Cwmni E.ON a RWE yn y DU

BETH YW DATBLYGIAD CYSYLLTIEDIG?

Bydd gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa angen nifer o newidiadau i'r seilwaith o amgylch y safle er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n llwyddiannus yn y tymor hir.



'Datblygiad cysylltiedig' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw waith pellach sydd ei angen y tu allan i ffiniau'r prif safle i gefnogi ei adeiladu a'i weithredu. Rydym yn credu y gallai hyn gynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd, darparu llety i'r gweithwyr a chyfleusterau parcio a theithio.

Er y bydd y cynigion ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa'n cael eu hystyried gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith*, yng Nghymru, nid yw datblygiad cysylltiedig yn cael ei ystyried o dan y system hon. Mae caniatâd ar gyfer gwaith yn y môr yn cael ei roi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mewn sawl achos mae gwaith ar y tir yn dod o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ac felly byddai caniatâd yn dod gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Yn Wylfa, rydym yn disgwyl y gallai datblygiad cysylltiedig gynnwys y meysydd canlynol:

- y rhwydwaith ffyrdd (yn cynnwys arwynebau, gostegu traffig, arwyddion, mynediad i'r safle a thirlunio);
- cyfleuster dadlwytho morol;
- darparu llety i'r gweithwyr oddi ar y safle;
- cyfleusterau parcio a theithio;
- gwelliannau rheilffordd;
- gwasanaethau'n cynnwys carthffosiaeth, dŵr a thelegyfathrebu; a
- mesurau i reoli unrhyw effeithiau ecolegol.

Mae Horizon yn cymryd y meysydd adeiladu ychwanegol hyn o ddifrif. Rydym yn deall bod angen i'r gymuned leol gael gwybod am unrhyw newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud o ganlyniad i orsaf niwclear newydd. Bydd datblygiad cysylltiedig yn elfen bwysig o'n hymgyngoriad swyddogol yn 2011.

* Yn dilyn newid y Llywodraeth ym Mai 2010, bydd yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr yn cymryd lle'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn y pen draw. Mae ei gylch gwaith yn gyffredinol yn debyg, er y bydd y penderfyniad terfynol ar geisiadau am ganiatâd yn cael ei wneud gan Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ynni a Newid Hinsawdd.

